

ADEILADU

Adeiladwch yrfa yn y byd adeiladwaith; disgwylir i'r diwydiant dyfu'n gynt yng Nghymru na gweddill y DU! O'r cartrefi a drigwn ynddynt i'r ffyrdd a yrrwn arnynt, mae cymaint o swyddi ar gael ar bob lefel - felly beth am fod yn rhan ohono?

Cymerwch olwg ar y swyddi sydd ar gael yn y sector hwn:

Gosod Brics

Yn union fel yr awgryma'r teitl, mae gosodwyr brics yn gosod brics, blociau concrid a deunyddiau eraill i adeiladu neu atgyweirio waliau, llefydd tân etc. Os nad oes gwahaniaeth gennych weithio yn yr awyr agored, yna dyma'r dewis i chi.

Sylfeini

Byddwch yn paratoui safle cyn i'r adeiladu gychwyn; gosod sylfeini, gosod pibwaith a gofalu dros ddraenio a cherrig llawr. Mae'r rôl hon yn sylfaenol ar ddechrau'r adeiladu.

Plastro

Gan ddefnyddio cot amddiffynol o blastr, byddwch yn paratoui'r waliau tu mewn cyn addurno. Mae angen lefel penodol o ffitrwydd gan y gallai fod yn waith corfforol caled.

Plymio

Byddwch yn fedrus mewn pibwaith a thiwbin i osod ac atgyweirio systemau gwres, draenio a dŵr yfed etc. Gallech weithio mewn sefyllfaoedd domestig a masnachol.

Peintio ac Addurno

Byddwch yn perffeithio'r cyffyrddiadau olaf, yn fewnol ac allanol, i strwythurau cadarn

at y dyfodol - o gartrefi i bontydd a chychod! Dyma'r yrfa i chi os ydych yn greadigol ac yn hoffi ymfalchio yn eich gwaith.

Gwaith Coed a Gwaith Saer

Gan weithio gyda'i gilydd, mae seiri yn gwneud y fframiau coed (megis drysau, ffenestri) sy'n cael eu defnyddio gan weithiwr coed i adeiladu'r elfennau adeiladu. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys gosod, adeiladu ac atgyweirio strwythurau a darnau gosod a wneir gan bren a deunyddiau cyffelyb eraill.

Gosodiad Trydanol

Rhoi'r sbarc yn ein cartrefi, swyddfeydd a ffermydd hyd yn oed! Mae trydanwyr yn gweithio gyda cheblau, gosodiadau goleuadau a switshis. Cewch eich addysgu am y safonau diogelwch diweddaraf, gan gynnig gwasanaeth dibynadwy i gwsmeriaid.

Peirianeg Sifil

Mae peirianwyr sifil wir yn siapio'r byd yr ydym yn byw ynddo; dylunio ac addasu ein ffyrdd, rheilffyrdd a phontydd i redeg yn effeithiol. I fod yn beirianwr sifil, byddwch yn wych am ddatrys problemau ac yn mwynhau mathemateg a ffiseg.

MAE'R SWYDDI SY'N TYFU CYFLYMAF YN Y MAES HWN YN CYNNWYS PEIRIANNWYR SIFIL, CYNLLUNWYR TREF A PHENSEIRI, SYDD HEFYD YN DERBYN Y CYFLOGAU UCHAF YN Y DIWYDIANT.



CYFANSWM Y SWYDDI YN Y DIWYDIANT HWN
41,290 CYMRU
898,565 DU



£25,339
£13.17/AWR

CYFLOG NODWEDDIADOL AR CYFARTALED YN Y DIWYDIANT HWN

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset / Gyrfa Cymru)

Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	PDBG	CN	PP
Gosod Brics Lefel 1 a 2	✓	✓	✓
Gwaith Coed a Gwaith Saer Lefel 1, 2 a 3	✓	✓	✓
Peirianeg Sifil Lefel 2 a 3	✓		✓
Gosodiad Trydanol 1, 2 a 3	✓	✓	
Sylfeini Lefel 1 a 2		✓	
Aml sgiliau Lefel Mynediad ac 1	✓	✓	✓
Peintio ac Addurno Lefel 1, 2 a 3			✓
Plastro Lefel 1 a 2	✓		✓
Plymio Lefel 1, 2 a 3	✓	✓	✓

Dolenni Defnyddiol

www.citb.co.uk/bconstructive Prentisiaethau gyda CITB, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant dros Adeiladwaith
www.careersinconstruction.com Safle swyddi sy'n arddangos y gyrfaoedd presennol mewn adeiladwaith
www.goconstruct.org Gwybodaeth ar y sector adeiladwaith



**DISGWYLIR I
1 YM MHOB 4
SWYDD
ADEILADWAITH
GAEL EU LLENWI
GAN FERCHED
YN 2020**

Ymgaiswch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | admissions@coleggwent.ac.uk | 01495 333777



Campus key: PDBG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / CN - Campws Dinas Casnewydd / PP - Campws Pont-y-pŵl

